



#### **SE4: Fformat ac Aelodaeth y Panel Disgyblu**

1.1 Bydd aelodaeth Panel Disgyblu'n cynnwys y canlynol:

- Cadeirydd: aelod uwch priodol o'r staff
- Dau aelod arall o'r staff;
- Un o swyddogion Undeb y Myfyrwyr.

Cofnodir yr achos gan unigolyn sy'n gweithredu'n Ysgrifennydd i'r Panel Disgyblu.

- 1.2 Ni fydd unrhyw aelod o'r Panel Disgyblu wedi ymwneud yn flaenorol â'r achos penodol nac wedi cael unrhyw gysylltiad â'r myfyriwr dan sylw. Cymerir gofal i sicrhau bod cydbwysedd priodol yn aelodaeth y Panel Disgyblu.
- 1.3 Pan fydd yn anodd ymgynnull panel o bobl sydd heb ymwneud yn flaenorol â'r myfyriwr, mae'n bosibl defnyddio staff o'r Grŵp PCYDDS ehangach neu ddefnyddio aelodau panel allanol priodol.
- 1.4 Ni fydd yn bosibl i'r swyddog o Undeb y Myfyrwyr sy'n gweithredu'n aelod o'r Panel Disgyblu gynrychioli unrhyw barti yn ystod unrhyw gam o'r broses ddisgyblu.
- 1.5 Mewn achosion sy'n ymwneud â niwed honedig i enw da'r Brifysgol, gall y Panel Disgyblu hefyd gynnwys aelod ychwanegol sy'n annibynnol ar y Brifysgol, a'i rôl fydd sicrhau bod y Panel Disgyblu'n glynu wrth egwyddor didueddrwydd wrth ystyried y drosedd honedig.
- 1.6 Gall y panel geisio cefnogaeth gan gynghorwyr allanol eraill.
- 1.7 Gall union fformat y Panel Disgyblu amrywio'n ôl amgylchiadau'r achos. Hysbysir pob parti am fformat y cyfarfod, fel arfer heb fod yn llai na deng niwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod o'r panel.
- 1.8 Defnyddir Fersiwn B pryd mai'r Brifysgol sy'n cychwyn y prosesau disgyblu.
- 1.9 Fel arfer bydd fformat y Panel Disgyblu ar un o dair ffurf, Ffurf A yw'r fersiwn safonol mewn achosion lle ceir achwynydd; Ffurf B yw'r fersiwn safonol mewn achosion lle mai'r Brifysgol yw'r achwynydd; a defnyddir Ffurf C pryd penderfynwyd nad yw'n briodol i'r myfyriwr a'r achwynydd fod yn yr un ystafell gydol y cyfarfod o'r Panel Disgyblu.

#### **Fersiwn A**

- Bydd aelodau'r Panel Disgyblu yn cwrdd ar wahân i ystyried y dystiolaeth a materion proses;
- Bydd y myfyriwr ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni, yr achwynydd ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni a'r Swyddog Achosion yn ymuno â'r cyfarfod;
- Bydd y Swyddog Achosion yn amlinellu'r achos a chanfyddiadau'r ymchwiliad;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r Swyddog Achosion;
- Gofynnir i'r myfyriwr wneud datganiad mewn ymateb i'r drosedd honedig;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r myfyriwr;
- Gofynnir i'r achwynydd wneud datganiad mewn cysylltiad â'r drosedd honedig;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r achwynydd;
- Bydd unrhyw dystion yn ymuno â'r cyfarfod;
- Gofynnir i unrhyw dystion wneud datganiad mewn cysylltiad â'r drosedd honedig;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r tyst(ion);
- Bydd y tyst(ion) yn gadael y cyfarfod;
- Gofynnir i'r Swyddog Achosion wneud datganiad terfynol;
- Bydd y Panel Disgyblu'n clywed datganiad terfynol gan y myfyriwr;
- Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni), yr achwynydd (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni), a'r Swyddog Achosion adael er mwyn caniatáu i'r Panel Disgyblu ystyried ei benderfyniad;
- Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) ddychwelyd i'r cyfarfod i gael ei hysbysu ar lafar am benderfyniad y Panel Disgyblu;
- Bydd y myfyriwr yn gallu cyflwyno gosodiad ychwanegol ynghylch y gosb os canfyddir bod camymddwyn;
- Gofynnir i'r achwynydd (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) ddychwelyd i'r cyfarfod i gael ei hysbysu ar lafar am unrhyw rai o benderfyniadau'r Panel Disgyblu sydd ag effaith uniongyrchol arno/arni;
- Bydd yr achwynydd yn gallu cyflwyno gosodiad ychwanegol ynghylch penderfyniad o'r fath;

### **Fersiwn B**

- Bydd aelodau'r Panel Disgyblu yn cwrdd ar wahân i ystyried y dystiolaeth a materion proses;
- Bydd y myfyriwr ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni'n ymuno â'r cyfarfod;
- Bydd y Swyddog Achosion yn ymuno â'r cyfarfod ac yn amlinellu'r achos a chanfyddiadau'r ymchwiliad;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r Swyddog Achosion;
- Gofynnir i'r myfyriwr wneud datganiad mewn ymateb i'r drosedd honedig;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r myfyriwr;
- Gofynnir i unrhyw dystion wneud datganiad mewn cysylltiad â'r drosedd honedig;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r tyst(ion);
- Bydd y tyst(ion) yn gadael y cyfarfod;
- Gofynnir i'r Swyddog Achosion wneud datganiad terfynol;
- Bydd y Panel Disgyblu'n clywed datganiad terfynol gan y myfyriwr;
- Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) a'r Swyddog Achosion adael er mwyn caniatáu i'r Panel Disgyblu ystyried ei benderfyniad;
- Gwahoddir y myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) a'r Swyddog Achosion i ddod yn ôl i'r cyfarfod i gael eu hysbysu ar lafar am benderfyniad y Panel Disgyblu. Bydd y myfyriwr yn gallu cyflwyno gosodiad ychwanegol ynghylch y gosb os canfyddir bod camymddwyn;

### **Fersiwn C**

- Bydd aelodau'r Panel Disgyblu yn cwrdd ar wahân i ystyried y dystiolaeth a materion proses;
- Bydd y myfyriwr ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni a'r Swyddog Achosion yn ymuno â'r cyfarfod;
- Bydd y Swyddog Achosion yn amlinellu'r achos;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r Swyddog Achosion;
- Gofynnir i'r myfyriwr wneud datganiad mewn ymateb i'r drosedd honedig;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r myfyriwr;
- Bydd yr achwynydd ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni'n ymuno â'r cyfarfod;
- Bydd y myfyriwr yn gadael y cyfarfod ond bydd y person a ddaw'n gwmni'n aros yn y cyfarfod;
- Gofynnir i'r achwynydd wneud datganiad mewn cysylltiad â'r drosedd honedig;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r achwynydd;
- Bydd yr achwynydd a'r person a ddaw'n gwmni'n gadael y cyfarfod a bydd y myfyriwr yn dod yn ôl i'r cyfarfod;
- Bydd unrhyw dystion yn ymuno â'r cyfarfod;
- Gofynnir i unrhyw dystion wneud datganiad mewn cysylltiad â'r drosedd honedig;
- Bydd y Panel Disgyblu'n holi'r tyst(ion);
- Bydd y tyst(ion) yn gadael y cyfarfod;
- Gofynnir i'r Swyddog Achosion wneud datganiad terfynol;
- Bydd y Panel Disgyblu'n clywed datganiad terfynol gan y myfyriwr;
- Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni), yr achwynydd (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni), a'r Swyddog Achosion adael er mwyn caniatáu i'r Panel Disgyblu ystyried ei benderfyniad;
- Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) ddychwelyd i'r cyfarfod i gael ei hysbysu ar lafar am benderfyniad y Panel Disgyblu;
- Bydd y myfyriwr yn gallu cyflwyno gosodiad ychwanegol ynghylch y gosb os canfyddir bod camymddwyn;
- Gofynnir i'r achwynydd (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) ddychwelyd i'r cyfarfod i gael ei hysbysu ar lafar am unrhyw rai o benderfyniadau'r Panel Disgyblu sydd ag effaith uniongyrchol arno/arni.
- Bydd yr achwynydd yn gallu cyflwyno gosodiad ychwanegol ynghylch penderfyniad o'r fath.

1.10 Er gall tystion fod yn rhan o'r broses, disgwylir fel arfer yr ymgynghorir â'r holl dystion yn rhan o'r broses ymchwilio fel y'i nodir yn y Polisi Disgyblu Myfyrywr fel bod yr holl dystiolaeth ar gael i'r panel ystyried yr achos yn fanwl yn y cyfarfod o'r Panel Disgyblu. Pan fo tystion yn cymryd rhan, hysbysir pob parti am enwau'r tystion a fydd yn bresennol cyn y cyfarfod o'r panel. Gofynnir i'r holl bartïon a ydynt yn bwriadu galw tystion i'r cyfarfod o'r panel.

1.11 Bydd modd cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog. Gall pob parti ofyn am hyn.

1.12 Caiff pob parti wybod yn ffurfiol yn ysgrifenedig am ganlyniad yr achos ymhen pum diwrnod gwaith clir i ddyddiad y Panel Disgyblu.